Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymru Gyfartal

## Gwneud Cymru'n lle tecach i fyw a gweithio ynddo

www.gov.wales

**Amcanion Cydraddoldeb**
**Ebrill 2016 – Mawrth 2020**



Fersiwn Hawdd ei Ddeall yw hwn o **Amcanion Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru 2016-2020**

Ebrill 2016

# Sut i ddefnyddio’r ddogfen hon




Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae’r geiriau a’r hyn maen nhw’n feddwl yn hawdd i’w darllen a’u deall.



Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi’n ei adnabod i’ch helpu.

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i’w deall. Mae’r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn **glas trwm** a dywedir beth maen nhw’n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Os bydd unrhyw un o’r geiriau yn cael ei ddefnyddio eto yn y llyfryn bydd yn cael ei ddangos mewn ysgrifennu glas cyffredin. Os gwelwch chi eiriau mewn ysgrifennu glas cyffredin, gallwch edrych beth maen nhw’n feddwl yn **Geiriau anodd** ar **dudalen 24**.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pan fydd y ddogfen yn dweud ‘ni’, mae hyn yn meddwl Llywodraeth Cymru.

I gael mwy o gopïau o’r fersiwn Hawdd ei Ddeall hwn cysylltwch â:



Is-adran Dyfodol Tecach
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays, Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: FairerFuturesMailbox@wales.gsi.gov.uk




Gwefan: http://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/?skip=1&lang=cy

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn Hawdd ei Deall gan Anabledd Dysgu Cymru gan ddefnyddio Photosymbols.

# Cynnwys


**Tudalen**

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon** .......... **2**

**Beth mae'r Gweinidog yn ddweud** .......... **4**

**Beth mae'r gyfraith yn ddweud am gydraddoldeb** .......... **6**

**Beth ydy'r cynllun yma** .......... **8**

**Amcan 1** .......... **11**

**Amcan 2** .......... **13**

**Amcan 3** .......... **14**

**Amcan 4** .......... **17**

**Amcan 5** .......... **18**

**Amcan 6** .......... **19**

**Amcan 7** .......... **21**

**Amcan 8** .......... **23**

**Geiriau anodd** .......... **24**

# Beth mae'r Gweinidog yn ddweud

Mae bod yn gyfartal yn meddwl gwneud yn siŵr bod bywyd yn deg i bawb. Mae arnon ni eisiau i Gymru fod yn lle:



- nad oes **gwahaniaethu** yn erbyn pobl

Mae **gwahaniaethu** yn eich erbyn yn meddwl bod rhywun yn eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eu bod nhw'n meddwl eich bod chi'n wahanol.



- y mae pawb yn cael yr un cyfleoedd





- y mae pawb yn cael cymryd rhan yn unrhyw beth



- y mae pawb yn teimlo'n ddiogel.




Yn 2012 fe ddywedon ni beth roedd arnon ni angen ei wneud i wneud Cymru'n fwy cyfartal. Mae'r rhain yn cael eu galw'n **amcanion cydraddoldeb**.





Mae **amcanion cydraddoldeb** yn bethau pwysig i wneud Cymru'n lle tecach i fyw ynddo.




Rydyn ni wedi gwneud llawer o bethau da dros y pedair blynedd diwethaf. Ond mae arnon ni angen dal ati a gwneud mwy.

I’n helpu i ysgrifennu’r amcanion cydraddoldeb newydd hyn fe wnaethon ni:




- edrych ar adroddiad sy’n cael ei alw’n **‘A yw Cymru’n Decach?’**. Mae hyn yn dangos i ni ble rydyn ni wedi gwneud yn dda yng Nghymru. A beth sy arnon ni angen ei wneud yn well.



- cael barn llawer o bobl ynglŷn â’r pethau sydd arnon ni angen eu gwneud er mwyn gwneud Cymru’n gyfartal.




Erbyn hyn mae gennym ni 8 o amcanion cydraddoldeb ar gyfer y pedair blynedd nesaf.




Erbyn 2020 rydyn ni’n gobeithio y bydd Cymru’n lle tecach a chyfartal i fyw ynddo.



**Lesley Griffiths AS, Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**




# Beth mae'r gyfraith yn ddweud am gydraddoldeb

Mae **Deddf Cydraddoldeb (2010)** yn ddeddf sy'n gwneud yn siŵr bod pawb yn cael yr un cyfleoedd.







Mae **Deddf Cydraddoldeb (2010)** yn gwneud yn siwr bod pobl yn y DU:

- yn cael eu trin yn deg
- ddim yn cael pobl yn gwahaniaethu yn eu herbyn
- yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn amddiffyn pobl rhag cael pobl yn gwahaniaethu yn eu herbyn. Mae rhai grwpiau sy'n cael eu trin yn llai teg na'r rhan fwyaf. Mae angen meddwl mewn ffordd arbennig i wneud bywyd yn decach i'r grwpiau hyn:



- dynion a merched



- pobl anabl – gan gynnwys **pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl**

Mae **pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl** angen cefnogaeth gyda'u meddyliau a'u hemosiynau.



- pobl o wahanol oed – pobl ifainc neu bobl hŷn



- pobl sy'n dod o wledydd eraill neu o ddiwylliannau eraill – sy'n byw mewn ffordd wahanol neu sydd â lliw croen gwahanol



- pobl o wahanol grefyddau – neu bobl heb grefydd



- menywod sydd yn disgwyl plentyn neu sy'n bwydo o'r fron




- **menywod hoyw** – menywod sy'n cael eu denu gan ferched eraill



- **dynion hoyw** – dynion sy'n cael eu denu gan ddynion eraill



- **dynion a menywod deurywiol** – pobl sy'n cael eu denu gan ddynion a menywod



- **pobl drawsrywiol** – pobl sydd wedi cael eu geni fel un rhyw ond fuasai'n hoffi byw fel y rhyw arall. Er enghraifft, gall person sy'n edrych fel dyn deimlo fel menyw y tu mewn iddo.


# Beth ydy'r cynllun yma




Mae gennym ni gynllun i wneud bywyd yn decach yn barod ar gyfer Ebrill 2012 - Mawrth 2016.



Fe ofynnon ni i chi beth roeddech chi'n feddwl y dylen ni wneud nesaf. Fe helpodd eich syniadau ni i ysgrifennu set newydd o amcanion cydraddoldeb.




Ers 2015 mae gennym ni ddeddf newydd sy'n cael ei alw'n **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**.



Mae'r ddeddf hon yn edrych sut fath o le rydyn ni am i Gymru fod yn y dyfodol. Mae bod yn gyfartal yn rhan bwysig o'r ffordd rydyn ni am i Gymru fod.

Mae’r ddeddf yn dweud bod yn rhaid i ni:



1. edrych sut y mae’r pethau rydyn ni’n wneud yn awr yn effeithio ar bobl mewn blynyddoedd i ddod



2. gwneud yn siŵr bod cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda’i gilydd i ddefnyddio’r ddeddf hon wrth ysgrifennu cynlluniau



3. gwneud yn siŵr bod pobl o wahanol grwpiau yn helpu i wneud penderfyniadau am Gymru



4. cael pawb i weithio gyda’i gilydd a rhannu’r ffordd maen nhw’n gwneud pethau



5. deall beth sy’n achosi’r problemau i bobl yng Nghymru.



Yna gallwn ni edrych sut i rwystro’r problemau rhag digwydd.

Bydd y pum ffordd hyn o weithio yn ein helpu i wneud yn siŵr bod ein hamcanion cydraddoldeb yn gweithio.

Wrth wneud Cymru'n decach rydyn ni'n anelu at gael:



- cymunedau cryf ble mae pobl yn parchu ei gilydd



- yr addysg a'r hyfforddiant sydd ar bobl eu hangen




- pobl yn byw bywydau iach



- pawb i gymryd rhan yn y pethau sy'n creu Cymru Cymreig.




Mae'r ddeddf yn dweud bod yn rhaid i ni ysgrifennu cynllun i wneud bywyd yn decach. Yr amcanion cydraddoldeb hyn yw dechrau'r cynllun. Fe fyddwn ni'n ysgrifennu gweddill y cynllun y flwyddyn hon.



Diolch i bawb wnaeth ein helpu i feddwl am hyn. Rydych chi wedi helpu i wneud gwahaniaeth i fywyd yng Nghymru.

# Amcan 1

**Mae'n rhaid i ni feddwl mewn ffordd arbenning am rai grwpiau. Dylai'r grwpiau hyn fod wrth galon cynllunio a pharatoi gwasanaethau cyhoeddus.**

**Y rhai pwysicaf yw:**



- **gwasanaethau iechyd a iechyd meddwl**




- **addysg – ysgolion a cholegau**



- **cartrefu**



- **gwasanaethau cymdeithasol**



- **cludiant.**



**Mae'n rhaid i bobl anabl gael cefnogaeth gyda'r hawl sydd ganddyn nhw i fyw'n annibynnol a chael dewis a rheoli pethau.**

## Pam y mae'r amcan hwn yn bwysig i ni

Fe ddywedoch chi wrthyn ni ei bod hi'n bwysig cadw'r amcan cydraddoldeb hwn.



Rydych chi wedi dweud wrthyn ni am gynnwys yr holl bobl o'r grwpiau y mae angen i ni feddwl amdanyn nhw mewn ffordd arbennig wrth i ni wneud gwasanaethau cyhoeddus neu newid y gwasanaethau hynny. Mae gan bobl anabl eu hawliau a'u hanghenion arbennig eu hunain.



Fe ddywedoch chi wrthyn ni bod pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl angen cael eu cynnwys.

## A yw Cymru'n Decach? – Adroddiad

Edrychodd yr adroddiad ar fywydau pobl o'r grwpiau y mae angen i ni feddwl amdanyn nhw mewn ffordd arbennig. Mae'n dweud:



- ei bod hi'n anodd cael help i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl



- bod pobl hŷn yn ei chael hi'n anodd i gael gofal



- bod plant a phobl hŷn yn cael eu cam-drin mewn ysbytai a chartrefi gofal. Mae'n rhaid i ni rwystro hyn.

Bydd yr amcan cydraddoldeb hwn yn ein helpu gyda'r problemau hyn.

# Amcan 2

**Gwneud yn siŵr bod digon o wybodaeth, cyngor a gwasanaethau eirioli.**



Mae'r rhain yn eich helpu i ddeall eich hawliau a gwneud dewisiadau.

## Pam y mae'r amcan hwn yn bwysig i ni




Roedd arnoch chi eisiau i ni gadw'r amcan cydraddoldeb hwn. Mae gwybodaeth a chyngor da yn eich helpu i wneud eich penderfyniadau eich hun am eich bywyd.



Mae arnon ni angen gwneud yn siŵr bod pawb yn gwybod am y gwasanaethau hyn. Bydd hyn yn eich helpu i wybod eich hawliau a pha gefnogaeth y gallwch chi ei chael.



Mae gwasanaethau cynghori angen gweithio gyda'i gilydd.

## A yw Cymru'n Decach? – Adroddiad




Mae'r adroddiad yn dweud bod arnon ni angen helpu pobl i gael cyngor cyfreithiol. Felly rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod gwasanaethau gwybodaeth a chynghori yn haws eu defnyddio.

# Amcan 3

**Edrych pam y mae rhai grwpiau o bobl yn cael:**




- **llai o gyfleoedd i gael gwaith da**



- **llai o dâl am yr un math o waith.**



Pan fyddwn ni'n deall pam y mae hyn yn digwydd, fe fyddwn ni'n gwneud rhywbeth yn ei gylch. Er mwyn helpu i newid hyn fe fyddwn ni'n cefnogi pobl o grwpiau y mae angen i ni feddwl amdanyn nhw mewn ffordd arbennig.

Fe fyddwn ni'n eu cefnogi i gael yr un cyfle i:



- wneud yn dda yn yr ysgol, a



- mynd i'r coleg, er mwyn iddyn nhw fedru dysgu medrau a dod o hyd i waith.

## Pam y mae'r amcan hwn yn bwysig i ni

Mae llawer o bethau yn effeithio ar y math o waith y gallwch chi wneud cais amdano a faint y byddwch yn cael eich talu. I helpu i newid hyn fe fyddwn ni'n cefnogi:



- rhoi'r cychwyn gorau i blant mewn bywyd



- addysg dda i bawb



- peidio â chredu mai merched sy'n gwneud 'hyn' a dynion yn gwneud 'hynna'



- cael mwy o bobl i ddysgu medrau newydd.

## A yw Cymru'n Decach? – Adroddiad

Mae'r adroddiad yn dweud bod ar y plant hyn angen cefnogaeth dda yn yr ysgol:



- plant sy'n cael prydau bwyd am ddim yn yr ysgol



- plant ag anghenion addysgol arbennig (AAA)



- plant sydd mewn gofal



- plant Sipsiwn a Theithwyr.

Mae'r adroddiad yn dweud hefyd bod yn rhaid i bawb gael cyfle teg i gael gafael ar waith. Mae arnon ni angen bod yn well am gefnogi'r bobl hyn i gael gafael ar waith:



- pobl ifainc



- pobl anabl



- pobl sy'n fwslemiaid

- pobl o rai grwpiau **lleiafrifoedd ethnig**.



**Lleiafrifoedd ethnig** – **hil** arbennig o bobl. Mae llai o'r hiliau hyn yn bod na hiliau eraill.


**Hil** - nifer o bobl, o'r un wlad fel arfer, sy'n edrych yn debyg i'w gilydd, er enghraifft, yr un lliw croen, wynebau tebyg a ffordd o fyw tebyg.

# Amcan 4

## Rhwystro cam-drin a throsedd casineb fel bo Cymru yn lle mwy diogel i fyw ynddo.



Mae'n **drosedd casineb** pan fydd dioddefwr yn meddwl bod trosedd yn eu herbyn wedi digwydd oherwydd pwy ydyn nhw.




## Pam y mae'r amcan hwn yn bwysig i ni

Ni ddylai neb orfod teimlo ofn y bydd cam-drin neu drosedd casineb yn digwydd iddyn nhw. Fe ddechreuon ni waith ar hyn gyda'n cynllun **Delio â throsedd casineb**. Ac yn 2015 fe gawson ni ddeddf newydd i rwystro **Trais yn erbyn menywod**.

Fe ddywedoch chi wrthyn ni bod yr amcan cydraddoldeb hwn yn bwysig iawn.



Rydyn ni am i fwy o bobl deimlo eu bod nhw'n gallu sôn am y troseddau hyn. Mae arnon ni hefyd eisiau edrych sut i'w rhwystro rhag digwydd.



## A yw Cymru'n Decach? – Adroddiad

Mae'r adroddiad yn dweud ei bod hi'n bwysig iawn i rwystro cam-drin a throsedd casineb. Ond mae'n dal i ddigwydd yr un fath.



Mae'r adroddiad yn sôn bod mwy o bobl yn dweud wrth yr heddlu pan fydd yn digwydd. Ac mae'r llysoedd yn cael mwy o bobl yn euog nag o'r blaen.

# Amcan 5

**Gwneud yn siŵr bod pobl o wahanol gefndiroedd yn ymuno â'n cyrff cyhoeddus.**



Mae **cyrff cyhoeddus** yn rhedeg gwasanaethau ar ran Llywodraeth Cymru ond dydyn nhw ddim yn rhan o lywodraeth.

## Pam mae'r amcan hwn yn bwysig i ni



Mae pobl newydd yn dod â syniadau newydd a ffyrdd newydd o edrych ar bethau. Mae'n meddwl ein bod ni'n gallu gwneud gwell penderfyniadau.

Fe ddywedoch chi bod hyn yn bwysig iawn.



Rydyn ni wedi treulio amser yn ceisio cael mwy o fenywod i ymuno â chyrff cyhoeddus. Rydyn ni wedi cychwyn gwneud hyn ond mae arnon ni angen gwneud mwy.



Mae arnon ni angen cael mwy o bobl o'r grwpiau y mae angen i ni feddwl amdanyn nhw mewn ffordd arbennig. Yn enwedig pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl.

## A yw Cymru'n Decach? – Adroddiad



Mae'r adroddiad yn dweud bod dim digon wedi newid. Does dim digon o bobl o wahanol gefndiroedd yn cymryd rhan yn ein cyrff cyhoeddus a gwleidyddiaeth.

# Amcan 6

**Gwneud ein cymunedau'n gryfach trwy wneud yn siŵr:**



- **bod pawb yn parchu pawb arall**



- **bod pawb yn cael ei gynnwys yn y pethau sy'n digwydd.**

## Pam mae'r amcan hwn yn bwysig i ni




Mae hwn yn amcan cydraddoldeb newydd. Mae'r toriadau i'r gwasanaethau a'r budd-daliadau wedi cael effaith ddrwg ar ein cymunedau. Ar adegau anodd, gall pobl weld y rhai sy'n wahanol iddyn nhw mewn ffordd wael.




Mae cymunedau cryf yn gwerthfawrogi a chroesawu pobl o wahanol gefndiroedd.

Bydd yr amcan cydraddoldeb hwn yn gweithio i helpu pobl ddeall y rhai o'r grwpiau y mae angen i ni feddwl mewn ffordd arbennig amdanyn nhw. Fe fyddwn ni'n canolbwyntio yn arbennig ar:



- sipsiwn a theithwyr



- ceiswyr lloches – pobl sy'n gadael eu gwlad i ddianc rhag perygl ac sy'n gofyn am gael byw mewn gwlad arall



- ffoaduriaid – pobl sydd wedi gorfod gadael eu gwlad oherwydd rhyfel neu drychineb fel daeargryn



- mudwyr – pobl sy'n symud o un wlad i'r llall.

## A yw Cymru'n Decach? – Adroddiad



Mae'r amcanion cydraddoldeb hwn yn cysylltu rhwystro cam-drin a thrais â'r bobl sy'n byw mewn cymuned. Fydd cymuned gref ddim yn gadael i bobl gael eu brifo oherwydd eu bod yn wahanol.

# Amcan 7

**Lleihau y nifer y bobl sy'n dlawd. Gwneud bywyd yn well i'r bobl sydd heb fawr o arian.**

**Yn arbennig:**



- **pobl anabl**



- **rhieni sy'n magu plant ar eu pennau eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o'r rhieni hyn yn fenywod**




- **rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig**



- **teuluoedd sydd â phlant anabl.**

## Pam mae'r amcan hwn yn bwysig i ni



Mae hwn yn amcan cydraddoldeb newydd. Fe ddywedoch chi ei bod hi'n fwy anodd i fod yn gyfartal os ydych chi'n dlawd. Ac mae'r bobl yn y grwpiau y mae angen i ni feddwl amdanyn nhw mewn ffordd arbennig yn fwy tebygol o fod yn dlawd.

## A yw Cymru'n Decach? – Adroddiad



Mae'r adroddiad yn dweud bod rhai grwpiau yn dal i fod yn fwy tebygol o fod yn dlawd.

Er bod llai o bobl digartref, mae rhai grwpiau o bobl yn fwy tebygol o fod yn ddigartref.

# Amcan 8

**Llywodraeth Cymru fydd y gorau am roi gwaith i bobl o wahanol grwpiau.**



## Pam mae'r amcan hwn yn bwysig i ni

Er mwyn i ni wneud Llywodraeth Cymru yn lle teg i weithio fel bo pawb yn cael yr un cyfle i wneud yn dda.



## A yw Cymru'n Decach? – Adroddiad

Mae'r adroddiad yn dweud ei bod hi'n bwysig bod yn deg ynghylch rhoi gwaith i bobl.

# Geiriau anodd

## Amcanion cydraddoldeb

Mae amcanion cydraddoldeb yn bethau pwysig i wneud Cymru'n lle tecach i fyw ynddo.

## Cyrff cyhoeddus

Mae cyrff cyhoeddus yn rhedeg gwasanaethau ar ran Llywodraeth Cymru ond dydyn nhw ddim yn rhan o lywodraeth.

## Deddf Cydraddoldeb (2010)

Mae Deddf Cydraddoldeb (2010) yn ddeddf i wneud yn siŵr bod pobl yn y DU:

- yn cael eu trin yn deg
- ddim yn cael pobl yn gwahaniaethu yn eu herbyn
- yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd.

## Dynion a menywod deurywiol

Pobl sy'n cael eu denu gan ddynion a menywod.

## Dynion hoyw

Dynion sy'n cael eu denu gan ddynion eraill.

## Gwahaniaethu

Mae gwahaniaethu yn eich erbyn yn meddwl bod rhywun yn eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eu bod nhw'n meddwl eich bod chi'n wahanol.

## Hil

- nifer o bobl, o'r un wlad fel arfer, sy'n edrych yn debyg i'w gilydd, er enghraifft, yr un lliw croen, wynebau tebyg a ffordd o fyw tebyg.

### Lleiafrifoedd ethnig

- hil arbennig o bobl. Mae llai o’r hiliau hyn yn bod na hiliau eraill.

### Menywod hoyw

Menywod sy’n cael eu denu gan fenywod eraill.

### Pobl drawsrywiol

Pobl sydd wedi cael eu geni fel un rhyw ond fuasai’n hoffi byw fel y rhyw arall. Er enghraifft, gall person sy’n edrych fel dyn deimlo fel menyw y tu mewn iddo.

### Pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl

Mae pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl angen cefnogaeth gyda’u meddyliau a’u hemosiynau.

### Trosedd casineb

Mae’n drosedd casineb pan fydd dioddefwr yn meddwl bod trosedd yn eu herbyn wedi digwydd oherwydd pwy ydyn nhw.